

---

## Taflen Ffeithiau: Rhoddion i Aelodau Seneddol sy'n ceisio cael eu hailethol yn etholiad cyffredinol Senedd y DU 2015

---

Mae gofyn i Aelodau Seneddol ddilyn rheolau o ran rhoddion a benthyciadau y maent yn eu derbyn sy'n gysylltiedig â'r swydd etholedig sydd ganddynt.

Mae gwahanol reolau yn berthnasol i roddion i ASau sy'n ceisio cael eu hailethol ar gyfer eu gwariant ymgeisydd yn y cyfnod cyn etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Yn y ddwy sefyllfa, dim ond gan ffynonellau yn y DU a ganiateir y gallwch dderbyn rhoddion

Mae'r daflen ffeithiau yn esbonio pryd mae'r gwahanol reolau yn berthnasol. Mae'n crynhoi pa roddion a ganiateir a gofynion adrodd ar gyfer

rhoddion yr ydych yn derbyn ar gyfer eich gwariant ymgeisydd ac ar gyfer eich gweithgarwch gwleidyddol fel AS.

Mae hefyd yn cynnwys manylion lle gallwch gael mwy o wybodaeth a chyngor ar y rheolau hyn.

## Rhoddion

Rhodd yw rhodd o arian, nwyddau, eiddo neu wasanaethau sy'n cael ei roi am ddim neu ar delerau anfasnachol. Dim ond gan ffynonellau yn y DU a ganiateir y gallwch dderbyn rhoddion

Mae'r rheolau ar roddion yn amrywio yn ddibynnol ar ym mha gynhwysedd yr ydych yn eu derbyn.

### Aelodau Seneddol ac aelodau o bleidiau gwleidyddol

Mae gofyn bod deiliaid rhai swyddi etholedig, (gan gynnwys Aelodau Seneddol) ac aelodau pleidiau gwleidyddol yn dilyn rheolau mewn perthynas â rhoddion a benthyciadau y maent yn eu derbyn mewn cysylltiad â'u swydd etholedig neu eu gweithgareddau gwleidyddol fel aelod o blaid wleidyddol. Caiff yr unigolion hyn eu galw yn 'dderbynwyr a reoleiddir'.

Gall Aelodau Seneddol dderbyn rhoddion a benthyciadau gyda gwerth o dros **£500** y maent yn eu cael ar gyfer eu gweithgareddau gwleidyddol fel AS gan ffynonellau a ganiateir yn unig, yn bennaf yn y DU.

Mae'r rheolau hyn yn berthnasol hefyd i aelodau pleidiau gwleidyddol, sy'n golygu os ydych yn aelod o blaid, bydd angen i chi wirio a ganiateir rhodd neu fenthyciad ac adrodd manylion unrhyw roddion neu fenthyciadau a dderbyniwch ar gyfer eich gweithgareddau gwleidyddol **ar ôl** i chi adael eich sedd wedi i'r Senedd gael ei diddymu.

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi canllawiau manwl ar gyfer Derbynwyr a Reoleiddir sydd ar gael ar ein [gwefan](#).

### Ymgeiswyr etholiad cyffredinol Senedd y DU

Mae gwahanol reolau'n berthnasol ar gyfer rhoddion yr ydych yn eu derbyn fel ymgeisydd yn etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Gwariant ymgeisydd yw gwariant ar weithgarwch un ai i hyrwyddo eich ymgeisyddiaeth neu i feirniadu ymgeiswyr eraill yn ystod y cyfnod a reoleiddir (y cyfnod pan fo'r terfynau gwario a'r rheolau'n berthnasol).

Bydd rhodd ar gyfer eich gwariant ymgeisydd os:

- yw wedi'i roi gan y rhoddwr ar gyfer eich gwariant ymgeisydd **ac**;
- yw wedi'i ei ddefnyddio gennyh i fodloni gwariant ymgeisydd

Gall ymgeiswyr dderbyn rhoddion o dros **£50** tuag at eu gwariant ymgeisydd gan ffynonellau a ganiateir.

Mae mwy o wybodaeth am roddion, gwariant ymgeiswyr a'r cyfnod a reoleiddir yn rhan 3 ein canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid, sydd ar gael ar [ein gwefan](#).

### Ffynonellau a ganiateir ar gyfer rhoddion

Dim ond gan ffynonellau a ganiateir, gan amlaf yn y DU y gallwch dderbyn rhoddion. Mae'r rheolau ar a ganiateir rhoddion yn berthnasol i roddion yr ydych yn eu derbyn ar gyfer eich gwariant ymgeisydd **ac** ar gyfer eich gweithgareddau gwleidyddol fel derbyniwr a reoleiddir. Dim ond gan ffynonellau a ganiateir canlynol y gallwch dderbyn rhoddion:

- unigolyn cofrestredig ar gofrestr etholiadol y DU, gan gynnwys etholwr tramor
- plaid wleidyddol gofrestrredig ym Mhrydain Fawr
- plaid wleidyddol gofrestrredig yng Ngogledd Iwerddon (ond dim ond ar gyfer gwariant ymgeisydd os ydych yn sefyll fel ymgeisydd etholiadol yng Ngogledd Iwerddon)
- mwyafrif o gwmnïau cofrestredig yn y DU
- undeb llafur cofrestredig y DU
- cymdeithas adeiladu gofrestrredig y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig cofrestredig yn y DU sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas cyfeillion cofrestredig y DU
- cymdeithas anghorfforedig yn y DU sydd wedi lleol ac sy'n cynnal rhan fwyaf o fusnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Gall Derbynwyr a Reoleiddir hefyd dderbyn rhoddion gan unigolion neu sefydliadau nad ydynt yn rhoddwyr a ganiateir i fodloni costau ymweliadau tramor mewn cysylltiad â'u gweithgareddau gwleidyddol.

Pan fyddwch yn cael rhodd ar gyfer eich gweithgareddau gwleidyddol neu eu gwariant ymgeisydd, mae gennych **30 diwrnod** i benderfynu os allwch ei dderbyn. Byddwch yn cael y rhodd ar y diwrnod yr ydych yn cymryd perchnogaeth ohono - er enghraifft ar y dyddiad y mae'r siec yn clirio.

Os nad yw'r rhodd gan ffynhonnell a ganiateir, mae'n rhaid i chi ei ddychwelyd ymhen y cyfnod o 30 diwrnod. Os nad ydych yn ei ddychwelyd, cymerir eich bod wedi'i dderbyn. Os ydych yn derbyn rhodd na chaniateir, efallai bydd yn rhaid i chi ei fforffedu. Gallwch hefyd fod wedi cyflawni trosedd.

## Cofnodi ac adrodd am roddion

Ar gyfer yr holl roddion a dderbyniwch, mae'n rhaid i chi gofnodi:

- enw a chyfeiriad y rhoddwr
- os yw'r rhoddwr yn gwmni, rhif cofrestredig y cwmni
- y swm (ar gyfer rhodd arian) neu natur a gwerth y rhodd (ar gyfer rhodd nad yw'n arian)
- y dyddiad y derbyniwyd y rhodd.

Ar gyfer rhoddion nas caniateir yr ydych wedi'u dychwelyd, mae'n rhaid i chi hefyd gofnodi:

- manylion o sut gwnaethpwyd y rhodd, os rhoddwyd y rhodd yn ddiennw
- y dyddiad y dychwelwyd y rhodd.
- gwybodaeth am y camau a gymerwyd gennych i ddychwelyd y rhodd

### Adrodd rhoddion fel derbynwyr a reoleiddir

Fel AS, mae'n rhaid i chi adrodd yr holl roddion sydd â gwerth dros £1,500 i'r Cofrestrydd Diddordebau Ariannol Aelodau o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad yr ydych yn penderfynu derbyn y rhodd.

Mae hyn yn cynnwys rhoddion sy'n adio i fwy na £1,500 gan yr un ffynhonnell yn yr un flwyddyn galendr.

Mae'n rhaid i chi hefyd adrodd rhai rhoddion i'r Cofrestrydd, sy'n cael eu

derbyn gan eich sefydliad lleol neu blaid ganolog un ai ar gyfer eich gweithgareddau gwleidyddol fel AS neu eich gwariant ymgeisydd. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y [Cod Ymddygiad i Aelodau](#) neu gan swyddfa'r Cofrestrydd, y gallwch eu ffonio ar 0207 219 3277 neu e-bostio [commonsregistrar@parliament.uk](mailto:commonsregistrar@parliament.uk)

Mae'n rhaid i chi adrodd am yr holl roddion nas caniateir o dros £500 i'r Comisiwn Etholiadol o fewn 30 diwrnod o dychwelyd y rhodd.

Wedi i chi adael eich sedd yn dilyn diddymu'r Senedd, fel aelod o blaid wleidyddol, rhaid i chi adrodd manylion rhoddion a benthyciadau a ganiateir a rhoddion a benthyciadau na chaniateir a roddir i chi ar gyfer eich gweithgareddau gwleidyddol, yn uniongyrchol i'r Comisiwn Etholiadol. Rydym wedi cynhyrchu ffurflenni y gallwch eu defnyddio i adrodd rhoddion a ganiateir ac na chaniateir, sydd ar gael ar ein [gwefan](#).

### Adrodd rhoddion ar gyfer eich gwariant ymgeisydd

Ar ôl yr etholiad, mae'n rhaid i'ch asiant baratoi cofnod yn rhoi manylion eich gwariant ymgeisydd a rhoddion yr ydych wedi'u derbyn i fodloni gwariant ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys rhoddion yr ydych wedi'u derbyn a'u dychwelyd.

Mae'n rhaid i'ch asiant gyflwyno'r Chief Electoral Officer i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Mae'n rhaid cyflwyno'r cofnod o fewn **35 diwrnod** o ddatgan canlyniad yr etholiad, ynghyd â datganiad gan yr asiant fod y cofnod yn gyflawn a chywir.

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd hefyd gyflwyno datganiad yn cadarnhau

bod y cofnod yn gyflawn a chywir o fewn **7 diwrnod** o gyflwyno'r cofnod.

## Ble gallwch chi gael mwy o wybodaeth

Rydym yn cyhoeddi canllawiau ac adnoddau i ymgeiswyr ac asiantiaid yn etholiad cyffredinol Senedd y DU, ac ar gyfer Derbynwyr a Reoleiddir, sydd ar gael ar ein [gwefan](#)

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch eich gwariant neu'ch rhoddion, gallwch gysylltu â ni ar y rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

- Cymru: 029 2034 6800  
[gywbodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gywbodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)
- Lloegr: 020 7271 0616  
[pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)
- Yr Alban: 0131 225 0200  
[infoscotland@electoralcommission.org.uk](mailto:infoscotland@electoralcommission.org.uk)
- Gogledd Iwerddon: 028 9089 4020  
[infonorthenireland@electoralcommission.org.uk](mailto:infonorthenireland@electoralcommission.org.uk)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch rhoddion a benthyciadau yr ydych yn eu cael mewn perthynas â'ch gweithgarwch gwleidyddol fel Aelod Seneddol, gallwch gysylltu â'r Cofrestrydd Buddion Ariannol Aelodau drwy ffonio 0207 219 3277 neu e-bostio [commonsregistrar@parliament.uk](mailto:commonsregistrar@parliament.uk)